Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Llanrug
**Llanrug**
**Caernarfon**
**Gwynedd**
**LL55 4AL**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2011**

**gan**

**Dr Prydwen Elfed-Owens**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrau Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Sefydlwyd Cylch Meithrin Llanrug yn 1972. Ers Ionawr 2008, mae'n cyfarfod mewn ystafelloedd sydd yn rhan o Ysgol Gynradd Llanrug ond sydd at ddefnydd y Cylch yn unig. Mae toiledau wedi eu lleoli gerllaw ac mae ardal awyr agored a rennir gan blant y Cylch a phlant dosbarth meithrin yr ysgol.

Mae'r plant sy'n mynychu'r lleoliad yn byw yn y pentref a'r ardaloedd cyfagos. Disgrifir yr ardal fel un freintiedig.

Mae'r Cylch ar agor o Ddydd Llun i Ddydd Gwener yn ystod tymor yr ysgol yn unig. Cynhelir dwy sesiwn wahanol pob dydd: un rhwng 08:55 ac 11.00 a'r llall rhwng 13:05 a 15:10. Cynhelir clwb cinio ('Meithrin Mwy') i blant dosbarth meithrin yr ysgol o 11.00 tan 12.35. Nid oes yr un plentyn yn mynychu mwy nag un sesiwn mewn diwrnod.

Rheolir y lleoliad gan bwyllgor gwirfoddol. Mae'n gweithredu fel aelod o 'Bartneriaeth Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Sir Gwynedd'. Mae hefyd yn aelod cofrestredig o'r 'Mudiad Meithrin'. Mae'n darparu ar gyfer plant dwy a hanner i bump oed. Yn ystod yr arolygiad, yr oedd 32 plentyn ar y gofrestr, a 18 ohonynt yn mynychu'r clwb cinio. Cymraeg yw iaith y cartref i'r rhan fwyaf o'r plant ac, ar hyn o bryd, 12.5% o'r plant sy'n dod o gartrefi Saesneg.

Mae'r arweinydd a thri ymarferydd yn meddu ar gymwysterau priodol ym maes addysg a gofal plant bach. Mae dau oedolyn arall wrth gefn. Cafodd y lleoliad ei arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal am Wasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym Mawrth 2010. Dyma'r arolygiad cyntaf gan Estyn.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Rhagorol** |

### Perfformiad presennol

**Mae perfformiad y cylch yn dda oherwydd:**

- y berthynas gynhaliol, addfwyn sydd yn bodoli rhwng y plant a'r ymarferwyr;
- y cynlluniau manwl ac amrediad o adnoddau rhagorol ym mhob ardal dysgu dan do a thu allan;
- ansawdd rhagorol yr addysgu yn y grwpiau ffocws;
- amgylchedd dysgu cynhwysol ac ysgogol;
- y trefniadau bwriadus sydd yn gweu'n naturiol i fywyd a gwaith y Cylch i gefnogi plant i dderbyn amrywiaeth a herio stereoteipio.

### Rhagolygon gwella

**Mae rhagolygon gwella'r cylch yn dda oherwydd:**

- gweledigaeth gadarn iawn yr arweinydd a'i dealltwriaeth o ofynion y meysydd dysgu;
- rheolaeth gyfrifol ac effeithiol y Pwyllgor Rheoli;
- ansawdd hynod o dda'r broses hunan arfarnu ar draws bob agwedd o waith y lleoliad;
- mae'r rheolwyr a'r ymarferwyr yn gweithredu deilliannau ac argymhellion a gânt ac a luniant yn ddiymdroi er budd y plant.
- ansawdd y partneriaethau amrywiol, a'r bartneriaeth ragorol sy'n bodoli rhwng y Cylch a Chlwb Ti a Fi a dosbarth meithrin yr ysgol gynradd leol;
- ansawdd arbennig o dda'r adeilad a'r adnoddau.

## Argymhellion

**Er mwyn gwella mae angen i'r Cylch:**

A1 roddi sylw bwriadus i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r plant;

A2 sicrhau cysondeb wrth fwydo iaith yn fwriadus i'r plant a'u cefnogi drwy gwestiynu heriol a symbylol sy'n eu harwain i ddatblygu cysyniadau;

A3 creu strwythur i alluogi ymarferwyr i gydweithio mewn rhwydweithiau proffesiynol i rannu syniadau ac arfer dda i hybu eu datblygiad proffesiynol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi dwy astudiaeth achos ysgrifenedig, yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | N/A |
|---|---|

**Safonau: N/A**

Nid oes adroddiad ar gynnydd plant, y safonau yn natblygiad eu medrau na'r iaith Gymraeg. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i fedru adrodd amdanynt heb nodi plant unigol.

**Lles: N/A**

Nid oes adroddiad ar les y plant. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i fedru adrodd amdanynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Rhagorol**

Caiff y cwricwlwm ei gynllunio'n dda iawn i ddiwallu athroniaeth cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae'r cynllunio hir dymor yn seiliedig ar gyfres o themâu sy'n addas i ystod oed a diddordeb y plant.

Darperir gweithgareddau ysgogol iawn i hybu'r plant i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd, sgiliau corfforol a chreadigol. Mae'r ymarferwyr yn darparu adnoddau addas iawn ym mhob ardal dysgu dan do a thu allan. Ni roddir sylw digon bwriadus, fodd bynnag, i hybu datblygiad technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r plant.

Ceir cydbwysedd da rhwng gweithgareddau wedi'u dewis gan y plentyn a gweithgareddau wedi'u cyfeirio gan ymarferwyr. Mae'r cynllunio ar gyfer y gweithgareddau ffocws dan arweiniad oedolion yn rhagorol.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr iawn yng ngwaith dyddiol y cylch i ddatblygu hunan hyder yr holl blant. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd effeithiol i ffurfio perthynas dda â'i gilydd ac oedolion ac i fod yn oddefgar o'i gilydd.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysgu a dysgu'r iaith Gymraeg yn dda. Mae'n cynnwys ymwneud y plant â llyfrau amrywiol, canu amrediad eang o ganeuon ac ehangu geirfa drwy weithgareddau ymarferol ar y themâu penodedig.

Mae'r ymarferwyr yn rhoi pwyslais rhagorol ar godi ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau a dathliadau Cymru ynghyd â diwylliannau eraill trwy chwarae rôl a thrwy darparu lyfrau ac arddangosfeydd amrywiol.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn dda ar y cyfan, ac yn rhagorol yn y grwpiau ffocws.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio ystod priodol o ddulliau ac adnoddau i gynorthwyo'r addysgu. Mae enghreifftiau rhagorol o ymarferwyr sy'n bwydo iaith yn fwriadus i'r plant ac yn eu cefnogi drwy gwestiynu heriol a symbylol ac mae hyn yn eu harwain i ddatblygu cysyniadau. Fodd bynnag, nid oes cysondeb digonol yn yr arferion hyn.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod eu plant yn dda ac mae perthynas gynhaliol, addfwyn yn bodoli rhyngddynt. Mae'r ymarferwyr yn rheoli ymddygiad y plant yn dda iawn. Maent yn arsylwi'r plant yn gyson wrth iddynt ymwneud â'u gweithgareddau. Mae'r arfer o gofnodi datblygiadau arwyddocaol yn effeithiol o ran cynllunio cam nesaf y gwaith ac o safbwynt creu darlun cyflawn o gynnydd y plant.

Caiff rhieni a gofalwyr eu hysbysu'n gyson am gyflawniadau, lles a datblygiad eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae'r lleoliad yn gymuned ofalgar a threfnus iawn. Mae'r trefniadau sefydlu ynghyd â'r cyswllt dyddiol gyda'r rhieni neu ofalwyr yn sicrhau bod y plant yn ymgartrefu'n dda iawn. Mae perthynas gynhaliol yn bodoli rhwng yr ymarferwyr a'r plant ac mae'r disgwyliad i blant ymddwyn yn gyfrifol wedi ei sefydlu'n gadarn. Maent yn hapus iawn yn y lleoliad ac yn gysurus yng nghwmni'r oedolion.

Mae polisïau a threfniadau i gefnogi iechyd a lles plant yn cael eu gweithredu'n dda. Darperir byrbrydau iach i bob plentyn yn ddyddiol.

Mae'r plant yn cael eu cymell i helpu ei gilydd ac mae trefn "Helpwr y Dydd" yn cynnig cyfleoedd da i'r plant i gymryd cyfrifoldeb yn eu tro. Gosodir disgwyliadau clir ar y plant sy'n hyrwyddo ymddygiad da.

Caiff anghenion y plant eu canfod yn gynnar a threfnir darpariaeth bwrpasol ac effeithiol ar eu cyfer. Cydweithir yn addas gydag asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol i ddiwallu unrhyw anghenion penodol.

Mae gan y lleoliad bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu plant.

Mae profiadau dysgu addas yn hyrwyddo datblygiad personol plant , gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol moesol a chymdeithasol, yn dda.

Mae trefniadau bwriadus iawn i gefnogi plant i dderbyn amrywiaeth ac i herio stereoteipio yn gweu'n naturiol i fywyd a gwaith y Cylch. Mae'n rhagoriaeth ac yn gryfder amlwg sy'n arwain y sector.

**Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol**

Mae amgylchedd dysgu'r lleoliad yn gartrefol ac ysgogol. Caiff yr holl blant gyfle cyfartal i'r cwricwlwm ac i'r holl weithgareddau a gyflwynir. Rhoddir pwyslais rhagorol ar ddathlu amrywiaeth a herio stereoteipio.

Mae gan y lleoliad nifer dda o ymarferwyr sy'n meddu ar wybodaeth a phrofiad priodol i gyflwyno'r cwricwlwm. Maent yn mynychu hyfforddiant yn rheolaidd i gadw'n gyfredol.

Mae'r cyfleusterau dan do a thu allan yn ardderchog, ac mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd llawn ohonynt.

Ceir cyflenwad hynod o dda o adnoddau a chânt eu defnyddio'n effeithiol iawn i gefnogi'r dysgu a'r addysgu. Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd addas o ymweliadau ac o ymwelwyr o'r gymuned i ymestyn profiadau'r plant.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Rhagorol** |

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae gan yr arweinydd weledigaeth gadarn iawn a dealltwriaeth dda o ddatblygiad plant ac o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae'r ymarferwyr yn ymroddgar ac yn cydweithio'n dda iawn fel tîm er budd lles y plant. Mae strwythur clir i'r sesiynau dysgu. Mae polisïau addas yn eu lle ac yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Mae rhieni a gofalwyr yn gwbl ymwybodol o fodolaeth y drefn gwyno.

Mae'r Pwyllgor Rheoli yn drefnus a chefnogol iawn i'r lleoliad. Mae'r aelodau'n gyfrifol ac effeithiol wrth eu gwaith.

Mae'r rheolwyr a'r ymarferwyr oll yn agored i syniadau newydd ac yn eu dehongli'n gelfydd a gofalus i ddefnydd ac anghenion y plant.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae hunan arfarnu yn rhan effeithiol iawn ac annatod o bob agwedd o waith y lleoliad.

Mae'r arweinydd yn gwerthuso ei harsylwadau dyddiol a'i chynlluniau wythnosol i lunio camau penodol ymlaen i hybu cynnydd bob plentyn.

Yn ddiweddar, mae'r Pwyllgor Rheoli wedi cysoni'i brosesau hunan arfarnu drwy ffurfioli ei werthusiadau o ymarferwyr. Ymgynghora'r arweinydd â rhieni neu ofalwyr yn gyson ac ag athrawes ymgynghorol Cyfnod Sylfaen yr Awdurdod Lleol i fwydo'r broses hon.

Mae'r arweinydd a'r rheolwyr yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir i grynhoi barnau a chanfod meysydd i'w datblygu. Mae'r adroddiad hunan arfarnu yn nodi'n glir iawn y cryfderau a meysydd i'w gwella.

Mae'r rheolwyr a'r ymarferwyr yn gweithredu deilliannau ac argymhellion a gânt ac a luniant yn ddiymdroi er budd y plant.

Prin, fodd bynnag, yw'r cyfleoedd i gydweithio mewn rhwydweithiau arfer broffesiynol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae'r arweinydd a chadeirydd y Pwyllgor Rheoli yn cydweithio'n effeithiol iawn er budd y plant ac i hyrwyddo parhad a datblygiad y lleoliad. Mae'r bartneriaeth gyda'r rhieni yn dda iawn ac mae eu cefnogaeth i'r lleoliad yn gadarn.

Mae'r arweinydd yn cydweithio'n effeithiol iawn hefyd gydag athrawes ymgynghorol Cyfnod Sylfaen yr Awdurdod Lleol a swyddog y Mudiad Meithrin. Mae'r partneriaethau hyn yn llwyddiannus ac yn fuddiol iawn o safbwynt sicrhau ansawdd addysg y plant sy'n mynychu'r lleoliad.

Defnyddir cysylltiadau cymunedol yn effeithiol i gefnogi dysgu'r plant a threfnir ymweliadau lleol amrywiol. Mae'r bartneriaeth ragorol gyda'r Clwb Ti a Fi a dosbarth meithrin yr ysgol gynradd leol yn hwyluso trosglwyddiad y plant o gam i gam. Mae'n rhagoriaeth ac yn gryfder sy'n arwain y sector.

**Rheoli adnoddau: Rhagorol**

Mae'r lleoliad wedi ei staffio'n briodol a gwneir defnydd effeithiol o gryfderau'r ymarferwyr er budd addysg y plant. Mae'r broses o reoli perfformiad i werthuso ymarferwyr ac i adnabod anghenion hyfforddiant yn effeithiol.

Mae ansawdd yr adeilad a'r adnoddau yn rhagorol. Mae'r ymarferwyr yn rheoli adnoddau yn dda iawn ac mae'r rhieni yn gweithio'n ddygn i ychwanegu at y cyflenwad. Bu'r lleoliad yn llwyddiannus yn eu cais am arian loteri sylweddol i ddatblygu'r ardal tu allan.

Mae'r lleoliad yn darparu gwerth da iawn am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni a gofalwyr

Derbyniwyd wyth o holiaduron gan rieni neu ofalwyr a mynegwyd barnau cadarnhaol iawn am bob agwedd o'r ddarpariaeth gan bob un. Derbyniwyd sylwadau positif ychwanegol parthed cynnydd y plant, ethos cartrefol y lleoliad, y wybodaeth a ddarperir, yr ymweliadau amrywiol, y cyswllt gyda dosbarth meithrin yr ysgol leol ac agwedd broffesiynol yr ymarferwyr. Credant fod eu plant yn ddiogel iawn a'u bod yn ymddwyn yn dda iawn. Dywedant fod y staff yn hawdd sgwrsio â nhw a bod eu plant yn ymgartrefu'n dda yn eu cwmni. Maent oll o'r farn bod y lleoliad yn cael ei redeg yn dda.

### Ymateb i drafodaethau gyda phlant

Mae hapusrwydd a brwdfrydedd yr holl blant yn amlwg wrth iddynt gyrraedd y lleoliad a chyfarfod yr ymarferwyr a'u ffrindiau. Maent yn gyfarwydd â threfn y sesiynau ac yn gwbl gartrefol ynddi. Ymunant yn hyderus yn y gweithgareddau amrywiol sy'n ennyn eu sylw a'u diddordeb.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Dr Prydwen Elfed-Owens | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o’r adroddiad**

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)